# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 30 Mawrth 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, S Gareth Owen, Geraint Wigley, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Siôn Ifans, Gwen Lloyd, William N Owen, Ann Williams,.

Estynodd y Cadeirydd croeso i pawb i'r cyfarfod, yn enwedig Cyng Paul Hughes yn dilyn ei deithiau yn y dwyrain. Estynodd hefyd llongyfarch I aelodau Cor Meibion Machynlleth yn eu llwyddiant ddiweddar yn cystadleuaeth Cor Cymru 2017 ac eglurodd fod brawd Cyng Ann Williams, sef Mr Wyn Humphreys, wedi marw yn ddiweddar. Estynwyd y Cynghorwyr i gyd cydymdeimlad i Ann yn ei phrofediageth.

**17.15. Cofnodion cyfarfod 23 Chwefror.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.16. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.51.4. Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa ac eglurodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda swyddog newydd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru ac yr oedd wedi gaddo edrych i fewn i'r sefyllfa.
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf ac eglurodd mi fydd gwaith yn cychwyn cyn bo hir rhwng Talywern a Melinbyrhedyn.
16.73.10. Problemau gyda gordyfiant coed ar y ffordd fawr ger Cwmlline. Ymddiheurodd y Clerc ei fod dim eto wedi clywed yn ol gan swyddogion yr Asiantaeth Cefnffyrdd.
16.74.1. Problemau cael apwyntiad yn Canolfan Iechyd Glantwymyn. Rhoddodd y Cadeirydd crynodeb o'r cyfarfod cyhoeddus yn y Canolfan yn Glantwymyn.
16.74.2. Pant ar draws y ffordd ger Tynant, Darowen. Cadarnhaodd y Clerc fod y gwaith i ailgreu gwyneb llyfn i'r ffordd wedi cael ei cwblhau. Ychwanegodd Cyng John Pughe Jones fod trigolion Darowen yn hapus iawn gyda'r canlyniad. Cytunwyd ysgrifennu llythr o ddiolch i swyddogion y Cyngor Sir.
16.74.3. Problemau gyda golau stryd ddim yn gweithio yn Nhalywern. Cadarnhaodd Cyng Geraint Wigley fod y goleuadau yn dal i angen sylw.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa ac eglurodd ei fod yn disgwyl ymateb swyddogol gan swyddogion Dwr Cymru.
17.14.2. Angen brwsio'r ffyrdd yn yr ardal. Ymddiheurodd y Clerc fod dim byd wedi digwydd ynglyn y sefyllfa, ond eglurodd fod dim ond un peiriant ar gael ar draws gogledd Powys.
17.14.5. Pridd yn cael ei gosod ger ochr y ffordd i Cwmeidrol, Cwmllinau. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru.

**17.17. Cynllunio.**
17.1. P/2017/0089. Estyniad i Tyn-y-cae, Commins Coch. Caniatad amodol.
17.2. DIS/2017/0049. Dileu amod ynglyn a cais i codi modurdu ger y Bwthyn Gwyn, Llanwrin. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi'r cais.

**17.18. Eitemau i'w talu.**
18.1. Taliad i Deryck Lewis am trwsio fainc yn Llanwrin. Cytunwyd taliad o £40-00.
18.2. Cynnig gan Mr Glenn Ward i torri gwair yn y mynwentydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd derbyn ei gynnig o £1,400-00 am torri'r gwair.

**17.19. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

19.1. Ysgol Glantwymyn. Eglurodd Cyng Aled Griffiths fod nifer o disgyblion yr ysgol wedi bod yn llwyddianus yn yr eisteddfod ac fod yna cyngerdd pigion ardderchog wedi cael ei gynnal y noson cynt. Cytunwyd ysgrifennu llythr i'r ysgol yn canmol eu llwyddiant ddiweddar.
19.2. Fforwn Cleifion. Dim adroddiad.

**17.20. Gohebiaeth.**

20.1. Llythyr o ddiolch gan Mr Thomas J Thomas ar rhan Capel Bedyddwyr Talywern.
20.2. Llythyr o ddiolch gan Mr Stephen Tudor ar rhan Capel Sama, Cwmllinau.
20.3. Llythyr o ddiolch gan Mr Andrew Robertson ar rhan Eglwys Tydecho Sant, Cemaes.
20.4. Llythyr gan Steve Halsall, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynglyn ac adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Powys.
20.5. Llythyr gan Sue Bolter, Cyngor Sir Powys, ynlyn a gwaredu gwasanaethau eiddo yn y Sir.
20.6. Llythyr gan Anne Wozencraft, Cyngor Sir Powys, yn cadarnhau'r newidiau i'r oedran derbyn i blant cychwyn yn yr Ysgol Gynradd.
20.7. Llythr gan Clive Pinney, Cyngor Sir Powys, ynglyn a diwedd hyfforddiant Cod Ymddygiad.
20.8. E-bost gan Neil Hemington, Llywodraeth Cymru, ynlyn ymgynghoriad ar cylchlythr drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn.
20.9. E-bost gan Lee Evans, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cynllyn codi sbwriel dros cyfnod o pedwar diwrnod pob wythnos yn lle pump diwrnod.
20.10. E-bost gan Lee Evans, Cyngor Sir Powys, gyda manylion oriau agor newydd i'r canolfanau ailgylchu sydd ar ol ym Mhowys.
20.11. E-bost gan Russell George AM gyda newyddion Mis Mawrth.

**17.21. Etholiad Mai 2017.**

21.1. Derbyniodd y Clerc ffurflenni cais gan nifer o'r Cynghorwyr sydd a diddordeb mewn cymeryd rhan yn yr etholiadau lleol ar 4 Mai 2017 i sefyll ar Cyngor newydd Cymuned Cadfarch. Eglurodd y Clerc mi fydd yn mynd a'r ffurflenni i lawr i swyddfa'r Cyngor Sir yn Llandrindod ar 3 Ebrill 2017 a rhoddodd crynodeb o'r amserlen i'r cyfnod etholiad.

**17.22. Unrhyw fater arall.**

22.1. Problemau gyda llwybr llithrig ger y cylchfan yng Nglantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod y sefyllfa wedi cael rhywfaint o sylw, ond mae'r sefyllfa dal yn beryglus. Cytunwyd gwasgu ar yr Asiantaeth Cefnffyrdd i glanhau'r llwybr cyn gynted ag sy'n bosib.
22.2. Problemau gyda coed yn tyfi ger Poesnant. Eglurodd Cyng Paul Hughes mi fydd rhaid torri'r coed yn ol ger Poesnant er mwyn diogelwch cerbydau yn dod allan o'r mynediad.
22.3. Problemau gyda sbwriel. Eglurodd Cyng Dafydd Evans fod yna problemau gyda sbwriel ger Poesnant a Mathafarn. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
22.4. Problem gyda ffos ger Gamffrwd, Llanwrin. Eglurodd Cyng Gareth Owen fod angen clirio'r ffos ger Gamffrwd. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
22.5. Problem gyda caead ger y gorsaf pwmpio ger Cwmllinau. Eglurodd Cyng Deryck Lewis fod angen clo ar y caead ger y gorsaf pwmpio. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw Dwr Cymru.
22.6. Cau cangen Machynlleth y Banc Nat West. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at Banc Nat West yn gwrthwynebu cau cangen y banc ym Machynlleth.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 27 Ebrill 2017.**